Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** | |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynhadledd OPCC** | |
| **Dyddiad:** | **23 Hydref 2017** | |
| **Amser:** | **09:30 – 11:30** | |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu (PCC)<br>Carys Morgans, Pennaeth Staff, OPCC (CM)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Cyllid, OPCC (JW) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Dirprwy Brif Gwnstabl Darren Davies (DCC)<br>Mrs Sharon Richards, Rheolwr Llywodraethu (SR)<br>Mrs Alison Perry, Cyfarwyddwr Comisiynu (AP)<br>Ms Irene Davies Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfiawnder Troseddol Strategol (IDJ)<br>Ms Claire Sedgwick, Dadansoddwr Galw ar Fusnes (CS)<br>D/C/Uwcharolygydd (Dros Dro) Steve Matchett (D/C/Uwcharolygydd)<br>Arolygydd Gwyndaf Bowen (GB) |
| **Ymddiheuriadau:** | Prif Gwnstabl Mark Collins (CC)<br>Miss Mair Harries, Swyddog Cymorth Gweithredol (MH) |

| **CRYNODEB GWEITHREDOL O GYFARFOD 11/10/2017** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam** | **Crynodeb Gweithredol** | **Cynnydd** |
| **PB 2199** | **Cam Gweithredu: AP i roi Traethawd Meistr i PCC wedi'i gwblhau gan aelod o staff DPP ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant.** | **Ar y gweill** |
| **PB 3000** | **Cam Gweithredu: Yr heddlu i ddarparu papur briffio yn ymwneud â sut y bydd hyfforddiant a pholisi diwygiedig yn effeithio ar ymwybyddiaeth dioddefwyr a chynnydd mewn atgyfeiriadau at wasanaeth wedi'i gomisiynu.** | **Ar y gweill** |
| **PB 3001** | **Cam Gweithredu: Heddlu i gysylltu â Goleudy yn ymwneud ag unrhyw faterion Cyfreithiol/caniatâd yn gysylltiedig â phroses atgyfeirio dioddefwyr ar gyfer cyfiawnder adferol.** | **Ar y gweill** |
| **PB 3002** | **Cam Gweithredu: OPCC i adrodd yn ôl ar gyflwyniad cam-drin domestig yn dilyn Symposiwm Ymchwil i Lywodraeth Cymru.** | **Ar y gweill** |
| **PB 3003** | **Cam Gweithredu: PCC i ystyried presenoldeb yng nghyfarfod CC gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda.** | **Wedi'i gwblhau** |
| **PB 3004** | **Cam Gweithredu: Heddlu i roi'r** | **Ar y gweill** |

| | | |
|---|---|---|
| | **diweddaraf o ran cynnydd yn erbyn cytundeb Bodlonrwydd Dioddefwyr.** | |
| **PB 3005** | **Cam Gweithredu: AP ac arweinwyr Heddlu i ddatblygu trefniadau peilot i'w gweithredu ar 1 Ebrill 2018.** | **Ar y gweill** |
| **PB 3006** | **Cam Gweithredu: AP i ddatblygu trafodaethau gyda Gwalia yn ymwneud â threfniadau trwydded dros dro ar gyfer React.** | **Ar y gweill** |
| **PB 3007** | **Cam Gweithredu: Heddlu i ystyried adnoddau i oruchwylio'r prosiect pontio** | **Ar y gweill** |
| **PB 3008** | **Cam Gweithredu: Heddlu i ddatblygu cynnydd wrth rannu system MAVIS gyda phartneriaid** | **Ar y gweill** |

| **PENDERFYNIADAU YN CODI O GYFARFOD 11/10/2017** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Penderfyniad** | **Crynodeb o Benderfyniad** | **I'w ddatblygu gan** |
| **PB T2 47** | **Penderfyniad: Cymeradwyo hysbysiad newid cytundeb am £1000,833 yn amodol ar y CFO yn derbyn y sicrwydd angenrheidiol i gwestiynau a godwyd.** | |

**2. Cofnodion cyfarfod Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 11 Hydref a materion yn codi**

Penderfynwyd yn dilyn adolygiad o gamau o'r cyfarfod blaenorol bod cofnodion cyfarfod Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 11 Hydref yn adlewyrchiad gwir a chywir o'r cyfarfod.

**3. Y Diweddaraf gan y Prif Gwnstabl**

Diweddariad Gweithredol

Rhoddwyd y diweddaraf i'r Bwrdd ar nifer o faterion gweithredol gan gynnwys digwyddiad arfau yn Llanymddyfri, dau ymgais ar hunanladdiad yn Hwlffordd a digwyddiad tân bwriadol yn y Drenewydd. Rhoddodd y DCC y diweddaraf hefyd ar waith parhaus yn y Drenewydd yn dilyn cynnydd mewn trosedd dreisgar.

Cydnabu'r DCC waith rhagweithiol gan gynnwys atafaeliad cyffuriau yn Llanelli a stop cyffuriau yn Aberystwyth. Cydnabu'r DCC hefyd waith eithriadol gan swyddogion a staff yn ystod canlyniad Corwynt Ophelia ar 16 Hydref.

Diweddariad sefydliadol

Rhoddodd y DCC y diweddaraf i'r Bwrdd ar ystod o faterion sefydliadol gan gynnwys bod dau swyddog wedi'u gwahardd o'u dyletswyddau ar hyn o bryd a'r Gwobrau Hirwasanaeth a gynhaliwyd yr wythnos flaenorol.

## 4. Y Diweddaraf gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Lleol

Rhoddodd y PCC y diweddaraf i'r Bwrdd ar ystod o ymgysylltiadau lleol gan gynnwys cyfarfod o'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yr wythnos flaenorol a'r diwrnod ymgysylltu cymunedol i ddod ym Mhorth Tywyn ar ddiwedd y mis.

Cenedlaethol

Rhoddodd y PCC y diweddaraf i'r Bwrdd ar ei ymweliad â swyddfeydd APCC yn Llundain ar gyfer cyfarfod cyffredinol APCC yr wythnos flaenorol, ynghyd â'i bresenoldeb yng nghyfarfod Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan yn HMP Berwyn, Wrecsam a Phroses Asesu Coleg Plismona yn Durham dros y penwythnos.

## 5. Testun Trafodaeth Fisol: Siwrnai Dioddefwr

Rhoddodd Ditectif Prif Uwcharolygydd Matchett drosolwg i'r Bwrdd o'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma mewn perthynas â siwrnai Dioddefwyr a sut y gellid defnyddio hyn i wella darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol. Tynnwyd sylw at faterion o fewn siwrnai dioddefwyr a'u trafod, gan gynnwys materion yn ymwneud â rhannu data dioddefwyr ac asesu bregusrwydd.

Cafwyd trafodaeth yn ymwneud â phwysigrwydd ymdriniaeth bartneriaeth i wella siwrnai Dioddefwyr gan ei fod yn cynnwys cyrff eraill y tu hwnt i DPP. Datganodd y PCC y byddai rôl newydd yn canolbwyntio ar gyfiawnder troseddol o fewn yr OPCC yn cynorthwyo wrth ddatblygu rhai o'r materion.

Roedd trafodaethau pellach yn perthyn i gytundeb llywodraethu a phwysigrwydd eglurder o fewn penderfyniadau. Cytunwyd mai'r prif lwybr i fynd i'r afael â materion fyddai trwy'r Bwrdd Agored i Niwed Strategol ac y byddai materion angenrheidiol yn cael eu codi trwy Fwrdd Gweithrediadau'r Heddlu.

**Cam Gweithredu: Y dylid cynnwys Siwrnai'r Dioddefwyr o fewn Cylch Gorchwyl Bwrdd Agored i Niwed Strategol.**

**Cam Gweithredu: Datblygu cynllun gweithredu i ddatblygu'r gwaith yn ymwneud â Siwrnai'r Dioddefwyr.**

## 6. Materion i'w trafod

### a. Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Drafft

Rhoddodd Sharon Richards drosolwg o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol diwygiedig, yn amlinellu'r diwygiadau a wnaed a'r ffordd yr oedd wedi'i symleiddio. Codwyd nifer o ymholiadau mewn perthynas â manylion y fframwaith; rhoddwyd arweiniad ar eu cyfer gan y PCC a'r DCC. Cytunwyd bod angen cyfathrebu'r ddogfen yn glir o fewn y sefydliad, a derbyniwyd cynnig Sharon Richards i gael dogfen grynhoi ac adran cwestiynau cyffredin. Cytunwyd y byddai'r ddogfen yn parhau yn un drafft hyd nes y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud o ran strwythur OPCC.

**Cam Gweithredu: Datblygu dogfen grynhoi a Chwestiynau Cyffredin ar gyfer y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol.**

**b. Cytundeb ANPR**

Derbyniwyd papur gan y Bwrdd yn ceisio cymeradwyaeth i symud ymlaen gyda hysbysiad newid cytundeb. Cafwyd trafodaeth yn ymwneud â manylion y cais. Cytunwyd mewn egwyddor y byddai'r cais yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar y Prif Swyddog Cyllid yn derbyn y sicrwydd angenrheidiol i gwestiynau a godwyd. Cododd y PCC hefyd bwysigrwydd cael cynllun clir i'r dyfodol mewn perthynas â buddsoddiad ANPR gan annog y byddai hyn yn cael ei gysylltu'n agos â gwaith yn ymwneud â CCTV.

**Penderfyniad: Cymeradwyo hysbysiad newid cytundeb ar gyfer £1000,833 yn amodol ar y CFO yn derbyn y sicrwydd angenrheidiol i gwestiynau a godwyd.**

**Cam Gweithredu: Cydweithrediad CCTV/ANPR i fod yn destun ar gyfer y Bwrdd Plismona.**

**7. Unrhyw Fater Arall**

a) Adroddiad Diogelu Powys: Gofynnodd y PCC am friffiad mewn perthynas â'r mater hwn.

**Cam Gweithredu: PCC i dderbyn briffiad ar Adroddiad Diogelu Powys.**

b) Gwiriadau lles nad ydynt yn rhai brys: Cynghorodd y DCC y Bwrdd o'i fwriad i gynnal digwyddiad rhanddeiliaid i drafod ffordd ymlaen i'r dyfodol gyda phartneriaid.

| **CRYNODEB GWEITHREDOL O GYFARFOD 23/10/17** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam** | **Crynodeb Gweithredol** | **I'w ddatblygu gan** |
| **PB 3009** | **Cam Gweithredu: Y dylid cynnwys Siwrnai Dioddefwyr o fewn Cylch Gorchwyl Bwrdd Agored i Niwed Strategol.** | **Irene Davies-Jones** |
| **PB 3010** | **Cam Gweithredu: Datblygu cynllun gweithredu i ddatblygu gwaith yn ymwneud â Siwrnai** | **Irene Davies-Jones** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Dioddefwyr.** | |
| **PB 3011** | **Cam Gweithredu: Datblygu dogfen grynhoi a Chwestiynau Cyffredin ar gyfer y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol.** | **Sharon Richards OPCC** |
| **PB 3012** | **Cam Gweithredu: Cydweithrediad CCTV/ANPR i fod yn destun ar gyfer y Bwrdd Plismona.** | **Carys Morgans OPCC** |
| **PB 3013** | **Cam Gweithredu: PCC  i dderbyn briffiad ar Adroddiad Diogelu Powys.** | **Uwcharolygydd Matchett** |